



# DYFFRYN ABERTAWE

.....



## CYFLWYNIAD



---

Mae ardal gymunedol Cwm Tawe'n cynnwys adrannau etholiadol Cwmllynfell, Ystalyfera a Godre'r-Graig, ac mae'n ffinio ag ymylon deheuol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Gyda hynt a helynt y diwydiannau haearn a glo yn yr ardal dros y 100 mlynedd diwethaf, mae treftadaeth ddiwydiannol gref gan y cwm. Mae Camlas Tawe a'r draphont ddŵr yn Ystalyfera'n ddau o olion mwyaf amlwg y cyfnod hwn yn hanes y cwm, ac erbyn hyn maent yn lleoliadau heddychlon i fywyd gwylt a cherddwyr.

Mae llawer o weithgareddau awyr agored ar gael yng Nghwm Tawe. Mae'r rhain yn cynnwys cerdded mynyddoedd ac ar lan y gamlas ac afonydd, llwybr beicio 43 y rhwydwaith cenedlaethol, llwybrau ceffyl, clybiau golff, pysgota a chyfeiriannu.





CANFYDDIADAU ALLWEDDOL O’N HYMARFERION  
**CYNNWYS AC YMCHWIL:**

.....



## CYMDEITHASOL

---



Nodwyd bod gwasanaethau hygyrch ac addysg i bawb yn agweddau allweddol ar les cymdeithasol yng Nghwm Tawe, ynghyd ag iechyd da a bod yn ddigon heini i gwrdd â ffrindiau ac aelodau teulu. Ymysg pethau y teimlid eu bod yn cynnig cyfle i wella lles cymdeithasol roedd sicrhau incwm gwell a rheoli amser yn fwy effeithiol. Codwyd pryderon ynghylch camddefnyddio alcohol a chyffuriau.





## ECONOMAIDD

---



Roedd agweddau at les ariannol ymhlith ymatebwyr i'r arolwg o Gwm Tawe'n amrywio o fod yn gallu talu biliau aelwyd i gynnal safon byw dderbyniol gyda swydd â chyflog da sy'n rhoi boddhad iddynt. Ystyrid mai'r ffactor pwysicaf sy'n cyfrannu at les yw cyflog da, a bod y pethau a allai wella lles yn cynnwys rheoli arian yn well a lleihau biliau cyfleustod.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad diwethaf (2011) y bu 4.1% o ddiweithdra yng Nghwm Nedd a bod 30.1% o'r rhai a oedd yn 16 oed ac yn hŷn heb unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na ffigur Cymru gyfan, sef 25.9%. O'r 2,573 o gartrefi yn yr ardal, nodwyd bod 1,780 (69.2%) yn ddifreintiedig, gan ddefnyddio un neu fwy o'r 4 dimensiwn amddifadedd canlynol: cyflogaeth, addysg, iechyd/anabledd a gorboblogi mewn aelwydydd (Cyfrifiad 2011).





Y math mwyaf cyffredin o gynefin yng Nghwm Tawe yw ucheldir agored megis glaswelltir a chorsydd â llethrau sgrî serth a rhostir. Mae'r ardal yn gartref i rywogaethau pwysig megis yr ehedydd a'r ysgyfarnog. Mae coridorau'r afonydd a llethrau'r cwm yn cynnal ardaloedd o goetir hynafol ac mae Camlas Tawe'n darparu cysylltedd cynefinoedd trwy'r ardal, gyda rhywogaethau allweddol fel y fursen fawr dywyll.

Mae dros naw ardal leol sy'n llawn bywyd gwyllt a dau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, y mae Camlas Tawe'n un ohonynt. Dyma ardaloedd sydd wedi'u dewis am eu gwerth bioamrywiaeth lleol.

Yn ôl ymatebwyr i'r arolwg, lles amgylcheddol oedd bod â mynediad i amgylchedd glân a diogel heb ei lygru. Ystyrid hefyd y sicrheir lles trwy deimlo'n gyfforddus o ran lle mae pobl yn byw, gyda mynediad i fannau agored at ddefnydd hamdden.

Fel mewn mannau eraill, rhoddwyd gwerth mawr ar fynediad i'r traeth, yn ogystal â llwybrau beicio a cherdded i fynd â'r ci am dro ac i farchogaeth. Ystyrid mai rhwystrau i les oedd diffyg mynediad, problemau gyda sbwriel a llygredd.





Mae ardal gymunedol Cwm Tawe'n cynnwys saith adeilad rhestredig a nifer o henebion. Mae dwy lyfrgell a reolir gan y gymuned yn y cwm: un yng Nghwmllynfell a'r llall yn Ystalyfera.

Ceir nifer o gyfleusterau chwaraeon yng Nghwm Tawe, megis lawnt fowlio, cyrtiau tenis, a chaeau pêl-droed a rygbi.

Rhoddodd ymatebwyr i'r arolwg ddiffiniadau amrywiol o les diwylliannol, gan gynnwys chwaraeon, y celfyddydau a thraddodiadau, darpariaeth addysg i oedolion a bod â mynediad i sinemâu a theatrau.

Roedd pwysigrwydd y Gymraeg yn thema gyson ac ystyrid bod cyfleoedd gwirfoddoli'n ffactorau cyfrannol pwysig ar gyfer lles diwylliannol. Mae gan yr ardal gyfan ganran uchel siaradwyr Cymraeg, sef 44.1% (2,481). Ar adeg llunio'r asesiad hwn, mae'r unig ysgol gyfun Gymraeg yn y fwrdeistref sirol i'w chael yng Nghwm Tawe yn Ystalyfera.

Mae nifer y bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn ardal gymunedol Cwm Tawe'n fach, gan adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol ar draws y fwrdeistref sirol.

Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad ostyngiad yng nghanran y bobl a oedd yn disgrifio eu hunain yn Gristnogion, o 69% yn 2001 i 53% yn 2011. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl a oedd yn nodi 'dim crefydd', o 20% i 37%.

O ran gwelliannau posib i les diwylliannol, roedd y preswylwyr am gael siop lyfrau/llyfrgell neu ganolfan ddiwylliannol i'w cymuned, ynghyd â chyfleoedd i gymryd rhan trwy wirfoddoli.





**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS  
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

